

**SICRHAU BOD BREXIT
YN GWEITHIO
I FUSNESAU LLAI CYMRU**

Medi 2017

fsb.wales

fsb⁰⁸
Experts in Business
Arbenigwyr mewn Busnes

SICRHAU BOD BREXIT YN GWEITHIO I FUSNESAU LLAI CYMRU

Yr FSB yw sefydliad busnes mwyaf Cymru, gyda thua 10,000 o aelodau sy'n gweithredu mewn amrywiaeth o sectorau trwy hyd a lled Cymru. Wrth inni symud ymlaen gyda thrafodaethau Brexit mae'n hanfodol bod buddiannau'r 250,000 o fusnesau llai yng Nghymru yn cael lle blaenllaw iawn gydol y trafodaethau ac wedi hynny. Mae hyn yn wir am anghenion y Deyrnas Unedig gyfan, a hefyd am anghenion penodol busnesau Cymru oddi mewn i'r Deyrnas Unedig (DU).

Fel rhan o'n gwaith ar Brexit, mae'r FSB wedi cyhoeddi pedwar adroddiad ledled y DU sy'n trin a thrafod agweddau allweddol Brexit a thu hwnt i fusnesau bach a'r hunangyflogedig. Y meysydd hyn oedd mynediad at farchnadoedd, sgiliau a llafur, cyllid o'r Undeb Ewropeaidd (UE) a beth nesaf, ac yn olaf ddyfodol rheoliadau'r UE yn y DU ar ôl Brexit¹.

Mae'r papur hwn yn cael ei lywio gan ganfyddiadau'r pedwar adroddiad yma, ac mae'n tynnu sylw at faterion sydd o arwyddocâd penodol i Gymru. Caiff ein canfyddiadau eu llywio gan arolygon ledled y DU gydag is-samplau arwyddocaol wedi'u tynnu o Gymru, ac o arolwg penodol i Gymru a wnaed gan FSB Cymru².

Rydym wedi ceisio tynnu sylw at faterion sy'n arbennig o berthnasol a phwysig i'n haelodau yng Nghymru, ac sy'n ceisio llywio trafodaethau'r DU sy'n mynd ymlaen mewn perthynas â Brexit. Mae hyn o ran y berthynas rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU, ac o ran ein perthynas yn y dyfodol gyda'r Undeb Ewropeaidd.^{3 4}

Rydym yn falch fod Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru wedi ceisio cytuno safbwynt ar y cyd ar Brexit. Dull cydgysylltiedig o fynd ati, ar draws y sbectrwm gwleidyddol yw'r ffordd orau o gyflawni bargaen dda i gwmnïau Cymru. Mae mynd ar drywydd safbwyntiau o gonsensws yn helpu i hybu rhywfaint o hyder ymhlith busnesau yn yr hyn sy'n hinsawdd economaidd ansicr. Y tu mewn i'r Cynulliad Cenedlaethol, bu ymgysylltiad y pwyllgorau â chymuned fusnes Cymru yn galonogol. Mae'r gwaith a gynhyrchwyd hyd yma ar oblygiadau cyffredinol Brexit⁵, dyfodol porthladdoedd Cymru⁶, ac ar gyllid rhanbarthol⁷ wedi bod yn gyfraniad uchel ei ansawdd at y drafodaeth sy'n mynd ymlaen.

¹ Teitlau ein pedwar adroddiad yw "Keep Trade Easy", "A Skilful Exit", "Reformed Business Funding" a "Regulation Returned" ac maent ar gael yma: <https://www.fsb.org.uk/standing-up-for-you/policy-issues/european-union/brexit>

² Fe wnaeth ein harolygon ledled y Deyrnas Unedig samplu tua 1500 o berchnogion busnesau, roedd hyd at 250 o'r cwmnïau hyn yng Nghymru

³ Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru (2016) Diogelu Dyfodol Cymru : Pontio o'r Undeb Ewropeaidd i berthynas newydd ag Ewrop

⁴ Llywodraeth Cymru (2017) Brexit a Datganoli: Diogelu Dyfodol Cymru

⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2017) Y Goblygiadau i Gymru yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2017) Ymchwiliad i oblygiadau Brexit i borthladdoedd Cymru

⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2017) Ymchwiliad i ddyfodol polisi rhanbarthol – beth nesaf i Gymru?

MYNEDIAD AT FARCHNADOEDD

Bydd masnach yn un o'r materion allweddol i fusnesau yn ein trafodaethau i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Dengys ein hymchwil ledled y DU bod un o bob pum cwmni bach yn allforwyr a bod un ym mhob pump yn rhagor yn ystyried allforio yn y dyfodol. Mae gadael marchnad sengl yr UE ac Undeb Tollau llawn yr UE, gan hynny ein galluogi i arfer polisi masnach annibynnol ac felly drafod ein Cytundebau Masnach Rydd ein hunain gyda gwledydd y tu allan i'r UE, yn cynnwys yr Unol Daleithiau a China, o'i wneud yn iawn, ag iddo'r potensial i agor cyfleoedd masnach newydd a chyffrous i fusnesau bach.

Fodd bynnag, mae'n amlwg o'n gwaith arolwg yn y DU mai marchnad sengl yr UE yw'r brif gyrchfan masnach o hyd ar gyfer cwmnïau bach yn y DU ac yng Nghymru i'r allforwyr presennol ac i ddarpar allforwyr. Mae cwmnïau o Gymru sydd yn allforio yn bedair gwaith mwy tebygol o allforio i gyrchfan yn yr UE nag i gyrchfan y tu allan i'r UE.

Mae ymchwil FSB Cymru yn cadarnhau bod tua un rhan o bump o aelodau'r FSB yng Nghymru yn allforio, gyda thua 13.5% o'n haelodau ym mewnforyio nwyddau neu wasanaethau. Yn gyffredinol mae hyn un unol â chyfartaledd y DU.

Mae mwyafrif ein haelodau yng Nghymru sy'n allforio yn allforio gwasanaethau a gwasanaethau digidol mewn gwirionedd, felly rydym yn arbennig o awyddus i weld cyfundrefn ffafriol o rwystrau di-dariff ar ôl Brexit. Yn arwyddocaol, mae busnesau Cymru yn fwy tebygol o fod yn allforwyr nwyddau a/neu wasanaethau digidol nag y maent o fod yn fewnforwyr yr eitemau hyn, gan ddangos un o gryfderau cymharol economi Cymru (er bod hyn yn gyson â chryfderau perthnasol economi ehangach y DU).

Ble mae mewnforyio yn digwydd, mae ein haelodau yng Nghymru, at ei gilydd, yn fewnforwyr nwyddau (68.8%) yn hytrach na gwasanaethau neu wasanaethau digidol, felly mae'n debygol y gallai rhwystrau a thariffau ar fewnforion i'r DU fod yn bwysau cost mwy sylweddol i'n haelodau yng Nghymru.

Erys Lloegr yn brif bartner masnach Cymru, ac mae integreiddio economaidd rhwng y ddwy wlad yn arwyddocaol. Yn dilyn ein hymadawiad o'r UE, rydym yn awyddus i sicrhau bod unrhyw drefniadau rheoleiddiol newydd yn diogelu perthynas fasnachu Cymru gyda busnesau y tu mewn i yn ogystal â'r tu allan i'r DU.

Ar ben hynny, cred FSB Cymru yw mai un o'r camau cyntaf i annog busnesau Cymru i allforio y tu hwnt i'r DU yw eu hannog i chwilio am farchnadoedd newydd ymhellach oddi wrthynt yn y DU, gan edrych heibio i'w hardal agosaf am gyfle. Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar ffyrdd o gefnogi hyn.

Mae'n allweddol hefyd fod y DU yn gallu sicrhau bargaen dros dro ar yr undeb tollau, gan roi amser i fusnesau bach yng Nghymru baratoi ar gyfer unrhyw drefniadau a rhwymedigaethau rheoleiddiol newydd sy'n codi o'n hymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd yn 2019. Felly mae'r FSB wedi croesawu papur sefyllfa Llywodraeth y DU ar yr undeb tollau⁸.

Mae ein hadroddiad "Keep trade easy – What small firms want from Brexit"⁹ yn gwneud nifer o argymhellion allweddol yn y maes hwn. Mae'r rhain yn cynnwys creu credydau treth allforio i annog allforio, yn ogystal â chefnogaeth i helpu busnesau bach i archwilio marchnadoedd newydd o fewn y DU - cam cyntaf bach tuag at allforio.

⁸ <https://www.poundsterlinglive.com/economics/7329-small-business-interim-customs-deal-brexite>

⁹ FSB (2017) Keep Trade Easy: What Small Firms want from Brexit <http://bit.ly/2nUWA1K>

Yn olaf, byddem yn hoffi gweld Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Strategaeth Masnach a Buddsoddi fel rhan o strategaeth datblygu economaidd ehangach. Byddai hyn yn llywio mewnbwn Llywodraeth Cymru i fargeinion masnach ledled y DU ar ôl Brexit. Dylai unrhyw strategaeth o'r fath gynnwys ymrwymiad i benodau busnesau bach mewn bargeinion masnach, a byddai'n blaenoriaethu datblygiad economaidd Cymru dros unrhyw hwb tymor byr cul ei ddiffiniad i wneud pennawd i ystadegau economaidd.

Byddai'n arwain Llywodraeth Cymru wrth wthio allforion o Gymru yn uwch, ac yn blaenoriaethu cynlluniau mewnfuddsoddi sy'n dod â budd tymor hir i Gymru gyfan. Mae Llywodraeth Yr Alban wedi cyhoeddi Strategaeth Masnach a Buddsoddi sy'n trafod rhai o'r themâu hyn.

Yn ogystal gallai strategaeth masnach a buddsoddi ateb y cwestiwn pa un a oes angen corff Masnach a Buddsoddi ar Gymru, tebyg i Scottish Development International neu Enterprise Ireland.


Yn dilyn ein hymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd, rydym wedi'n bodloni gan adroddiadau fod Ysgrifenyddion Gwladol Cymru a'r Alban yn pwysu am i'r Gweinyddiaethau Datganoledig fod â rôl allweddol wrth ddatblygu bargeinion masnach newydd. Bydd hyn yn caniatáu i anghenion unigryw Cymru gael eu hadlewyrchu yn ein partneriaethau masnach parhaus gyda gweddill y byd.

MYNEDIAD AT SGILIAU A LLAFUR

O ran mynediad at sgiliau, mae ein hymchwil yn y DU¹⁰ yn dangos bod tua un o bob pump o fusnesau yng Nghymru yn cyflogi dinasyddion Ewropeaidd. Mae hi'n bwysig dal i allu cael at y gronfa hon o ddoniau, yn enwedig ble mae bylchau sgiliau yn bodoli yng ngweithlu'r DU a Chymru. Dengys ystadegau FSB Cymru fod mwyafrif llethol gweithwyr yr UE yng Nghymru yn gwneud gwaith canolig neu uchel ei sgiliau.

Rydym yn bryderus y gall newidiadau yn y farchnad lafur ar ôl Brexit effeithio'n fwy arwyddocaol ar fusnesau mewn ardaloedd gwledig – lle mae mynediad at gronfa o lafur medrus yn fwy cyfyngedig oherwydd rhesymau daearyddol. Dengys ein hymchwil y gall rhai sectorau mewn ardaloedd gwledig fod yn dibynnu'n drymach ar lafur mudol¹¹. Mae hwn hefyd yn fater sy'n cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru yn eu papurau ar Brexit.

Graff 1: A yw unrhyw rai o'ch gweithwyr yn wladolion yr UE nad ydynt o'r DU?




Mae tua 16% o'n haelodau yng Nghymru yn cyflogi gwladolion yr UE o'r tu allan i'r DU ar hyn o bryd, gyda mwyafrif llethol y gweithwyr hyn yn unigolion canolig neu uchel eu sgiliau (42.4% a 33% yn y drefn honno). [Yn fras mae'r duedd hon yn debyg i ganlyniadau'r arolwg ledled y DU ac mae'n taflu goleuni'n benodol ar bwysigrwydd gweithwyr yr UE â sgiliau canolig i fusnesau bach].

¹⁰ FSB (2017) A Skillful Exit: What Small Firms want from Brexit – <https://www.fsb.org.uk/docs/default-source/fsb-org-uk/a-skillful-exit---what-small-firms-want-from-brexit.pdf?sfvrsn=0>

¹¹ ibid

Graff 2: Pa fath o waith y mae'ch gweithwyr UE nad ydynt o'r DU yn ei wneud? Nodwch y math o waith a wneir gan y mwyafrif o weithwyr UE nad ydynt o'r DU.



Dywed ein haelodau yng Nghymru eu bod yn hurio unigolion o'r fath i lenwi bylchau yn eu busnes y maent yn methu eu llenwi fel arall, neu fod yr unigolion y maent yn eu hurio yn ffitio'n dda o fewn y gofynion sgiliau ar gyfer eu busnes. Credwn y dylai'r hyblygrwydd hwn barhau i fod ar gael i bob busnes, ac na ddylai rhwystrau i hurio mudwyr medrus fod yn afresymol i'r busnesau lleiaf.

Y tu hwnt i hyn, mae 3.4% o'n haelodau a arolygwyd yn wladolion yr UE sy'n berchen ar neu'n rhedeg busnes yng Nghymru. Er bod y nifer hwn yn gyfran fechan, a'n bod yn methu darparu mwy o ddadansoddiad wedi'i seilio ar faint yr is-sampl, dylai anghenion y perchnogion busnes hyn yn y cyfnod pontio gael ei archwilio ymhellach. Rhaid i Gymru a'r DU barhau'n lle atyniadol i sefydlu busnes i entrepreneuriaid o bob rhan o'r byd.

Efallai'n fwy arwyddocaol, mae cyfran sylweddol o'n haelodau yng Nghymru yn awgrymu y byddant, mewn ymateb i gyfyngiadau ar hawl llafur yr UE i symud yn rhydd, naill ai'n ymdrechu'n galetach i ddenu a hyfforddi gweithwyr o'r DU, neu'n ceisio dwyn baich costau system fewnfudo newydd. Fodd bynnag, mae'n amlwg na fydd busnes yn gallu dwyn unrhyw gost yn llwyddiannus. Mae'n hanfodol, felly, fod Llywodraeth y DU yn ceisio sicrhau bod costau unrhyw system caniatáu gwaith ar ôl Brexit gyn lleied â phosibl, a bod Llywodraeth Cymru yn gallu darparu hyfforddiant ac addysg priodol i ddiwallu ein hanghenion sgiliau.

Megis mewn meysydd eraill, mae'r FSB wedi croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i ryw fath o gyfnod trosiannol (y maent yn ei alw'n gyfnod gweithredu) ac i gyflwyno unrhyw system fewnfudo newydd yn raddol, gan osgoi senario ble bydd cwmnïau llai yn cael eu cloi allan o gael gafael ar y llafur a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt. Wrth gyflwyno pethau'n raddol, rhaid i gwmnïau bach gael yr amser sydd ei angen arnynt i baratoi.

Yn dilyn ein hymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd, dylai anghenion Cymru gael eu hadlewyrchu mewn unrhyw bolisi ymfudo. Dylid rhoi ystyriaeth i rôl Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu unrhyw bolisi ymfudo newydd, a sut y dylai anghenion unigryw Cymru gael eu hadlewyrchu.


CYLLID O'R UNDEB EWROPEAIDD

Ar hyn o bryd mae Cymru'n derbyn tua £680miliwn y flwyddyn mewn cyllid o'r UE¹² ac mae hyn yn sicr yn hwb sylweddol i bwrs y wlad yng Nghymru, ac mae cyllid o'r fath wedi'i ddefnyddio ar gyfer nifer o gynlluniau y bwriedir iddynt gefnogi busnesau yng Nghymru neu i ymgymryd â gweithgaredd datblygu economaidd yng Nghymru.

Ledled y DU, mae pryderon fod benthyca i fusnesau bach yn disgyn gan fod disgwyl y bydd mynediad at y Gronfa Fuddsoddi Ewropeaidd a Banc Buddsoddi Ewrop yn peidio yr adeg y byddwn yn ymadael â'r UE¹³, ac mae'r mater hwn yn debygol o gael ei deimlo'n fwyaf enbyd yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Ar ôl Brexit, os nad oes cronfeydd o werth tebyg ar gael i Gymru, mae'n debygol y bydd pethau'n llawer gwaeth ar economi Cymru. Erys Gwerth Ychwanegol Gros yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn sylweddol is na chyfartaledd y DU, er gwaethaf tueddiadau calonogol yn y blynyddoedd diwethaf.

Graff 3: A yw'ch busnes wedi cael at gyllid o'r UE?



Er enghraifft, mae ein hymchwil¹⁴ yn dangos bod ychydig dan chwarter (22.9%) o Fusnesau Bach a Chanolig (BBaChau) Cymru wedi derbyn cymorth gan ffrydiau cyllido Ewropeaidd, wedi'u harwyddo'n bennaf trwy "Busnes Cymru" neu gymorth sgiliau a busnes ehangach.


Defnyddiwyd y cymorth ariannol hwn i ddarparu hyfforddiant sgiliau, ymchwil a datblygu a chymorth datblygu busnes. Mae FSB Cymru'n gwybod hefyd fod cyfran sylweddol o'r gyllideb prentisiaethau, cymorth allweddol i BBaChau a datblygiad sgiliau ehangach yng Nghymru yn cael ei chyllido gan yr UE ar hyn o bryd.

¹² Llywodraeth Cymru (2017) Brexit a Datganoli: Diogelu Dyfodol Cymru

¹³ <http://www.fsb.org.uk/media-centre/press-releases/small-business-lending-worsens-as-eu-funding-dries-up>

¹⁴ FSB (2017) Reformed Business Funding – What Small Firms want from Brexit <https://www.fsb.org.uk/docs/default-source/fsb-org-uk/reformed-business-funding.pdf>

Graff 4: Pa effaith y mae cyllid o'r UE wedi'i gael ar eich ardal leol?



Yn fwy cyffredinol, mae ein haelodau yn dweud bod cyllid yr UE wedi cael effaith net gadarnhaol ar eu busnes a'u hardal leol, gyda dim ond tua 15% o'r ymatebwyr i'n harolygon yn awgrymu na chafodd y cyllid unrhyw effaith neu'i fod wedi cael effaith negyddol. Mae FSB Cymru o'r farn, felly, y dylai Cymru barhau i dderbyn cyllid o werth cyfartal neu debyg ar ôl Brexit, safbwynt a gefnogir gan fwyafrif (78%) ein haelodau yng Nghymru. Byddai hyn yn helpu i gefnogi a chynnal momentwm datblygu economaidd yng Nghymru a byddai'n sicrhau bod cyllid ar gael i economi Cymru yn berthynol i'w hangen.

Er bod aelodau wedi sôn am anawsterau wrth ymgeisio am gyllid, neu fod yr amodau sydd ynghlwm wrth gyllido wedi bod yn rhy gyfyngol, mae'n ymddangos yn amlwg fod y cronfeydd hyn wedi chwarae rôl allweddol wrth gefnogi busnesau Cymru.

Wrth lunio cronfeydd yn y byd ôl-Brexit, dylid defnyddio profiadau busnesau bach Cymru i lywio arfer gorau. Ni ddylai ddigwydd bod llunio gwael, neu wariant cronfeydd yn y gorfennol yn nacáu bodolaeth cronfeydd newydd sy'n cyd-fynd ag angen Cymru.

Mae dyfodol cyllid datblygu rhanbarthol Cymru, sy'n cael ei ddarparu'n bennaf ar hyn o bryd trwy raglenni Ewropeaidd, yn fater allweddol i aelodau FSB Cymru a Chymru gyfan, a hoffem weld hyn yn cael sylw fel mater o flaenoriaeth.


RHEOLIADAU'R UE

Mae ein hadroddiad terfynol, ynghylch beth fydd yn digwydd i reoliadau'r UE yn y DU ar ôl Brexit¹⁵ yn llywio'r drafodaeth ar y mater tymor hir hwn yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Disgwylir y bydd rheoliadau'r UE (yr acquis) yn cael eu trosglwyddo i gyfraith y DU (a Chymru) yn eu crynswth ar y diwrnod y byddwn yn gadael yr UE, a byddai hynny'n osgoi sefyllfa fregus ymyl y dibyn i gwmnïau bach ac yn rhoi peth sefydlogrwydd yn y tymor byr. Yn dilyn hyn, rydym yn argymhell dull graddol o weithredu diwygiadau rheoleiddiol, yn hytrach nag unrhyw newidiadau sydyn i reoliadau.

Mae FSB Cymru wedi cyhoeddi gwaith o'r blaen ar dirwedd rheoleiddiol Cymru, ac rydym yn dal yn awyddus i weld argymhellion ein hadroddiad yn 2014 "Better Regulation for Wales"¹⁶ yn cael eu gweithredu gan Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn mynd ar drywydd agenda gwelliannau rheoleiddiol weithredol, a fydd yn ei gwneud yn haws i BBaChau gydymffurfio â'r gyfraith. Mae llawer o'r adroddiad hwn yn dal yn berthnasol, efallai hyd yn oed yn fwy felly os gwelwn ni ddiwygiadau rheoleiddiol sylweddol ar ôl Brexit.

Graff 5: Gan feddwl am y newid sy'n dod ym mherthynas y DU gyda'r UE, i ba raddau yr ydych yn meddwl y bydd cyfle i ddiwygio'r rheoliadau sy'n effeithio ar eich busnes o ganlyniad i ymadael â'r UE?



¹⁵ FSB (2017) Regulation Returned – What Small Firms want from Brexit <http://www.fsb.org.uk/docs/default-source/fsb-org-uk/fsb-regulation-returned-report.pdf?sfvrsn=0>

¹⁶ FSB Wales (2014) Better Regulation for Wales <http://www.fsb.org.uk/LegacySitePath/policy/rpu/wales/images/better%20regulation%20wales.pdf>

Mae mwyafrif (53%) y busnesau bach yn y DU yn credu y bydd gadael yr UE yn rhoi naill ai gyfle sylweddol (25%) neu beth cyfle (27%) i ddiwygio rheoliadau sy'n effeithio ar eu busnesau. Mae hyn yn cymharu â 34 y cant sy'n credu na fydd gadael yr UE yn rhoi naill ai ddim cyfle newydd ar gyfer diwygio rheoleiddiol (26%) neu hyd yn oed lai o gyfle nag sydd gennym heddiw (8%).

Nodwedd drawiadol o'n data sy'n benodol i Gymru yw bod mwyafrif bychan (54.54%) o'n haelodau yn credu na fydd gadael yr UE yn rhoi cyfle ychwanegol i ddiwygio rheoliadau sy'n effeithio ar eu busnes. Er hynny, mae 21.9% o'r sampl yn awgrymu y bydd gadael yr UE yn rhoi cyfle sylweddol i ddiwygio rheoliadau sy'n effeithio ar eu busnes. Mae'n debygol y bydd gwahaniaethau sectoraidd cryf yn yr ymatebion i'r adran hon, ac efallai ei fod yn adlewyrchiad hefyd o'r lefelau cymharol isel o gwmnïau llai sy'n allforio.

Mae hyn mewn cyferbyniad â'r arolwg cynharach ledled y DU a oedd yn dangos bod busnesau Cymru yn hyderus y byddai gadael yr UE yn rhoi cyfle i ddiwygio rheoliadau (70%), efallai bod hyn yn dangos fod natur y drafodaeth gyhoeddus wedi symud dirnadaeth busnesau Cymru oddi wrth y cyfleoedd posibl y mae gadael yr UE yn ei gyflwyno. Efallai ei fod yn cynrychioli gwahaniaethau yng nghyfansoddiad sectoraidd busnesau sy'n ymateb i'n harolygon hefyd.

Yn aml, mae'r anawsterau gyda chydymffurfiaeth reoleiddiol y mae ein haelodau yn sôn amdanynt i'w pridoli i orfodi a chyflawni yn lleol, nid cynnwys penodol y rheoliadau. Dylai Llywodraeth Cymru a'r DU geisio sicrhau mai rhwyddineb cydymffurfio a gorfodi, trwy sianelau lleol effeithiol, yw'r flaenoriaeth yn y byd ôl-Brexit.

Mae'n hanfodol hefyd fod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gallu gweithio gyda'i gilydd i sicrhau nad yw gwahanol bolisiâu domestig y DU yn creu rhwystrau newydd i gwmnïau sy'n masnachu rhwng Cymru, yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rydym wedi awgrymu bod angen gwella a chreu pwrpas newydd i'r Cydgyngor Gweinidogion, i greu fforwm ar gyfer trafod y materion hyn. Dylai Cydgyngor Gweinidogion â phwrpas newydd fod yn fwy gweladwy i sicrhau bod gan fusnes yr hyder fod yna fforwm cydnabyddedig ar gyfer trafod materion rheoleiddiol pwysig yn ymwneud â Brexit.

Mae'n hanfodol hefyd, ar ôl Brexit, fod gan fusnesau hyder ym mharhad trefniadau gwneud penderfyniadau. Mae hyn o bwys arbennig mewn meysydd ble gall y gorgyffwrdd rhwng y DU a maes lle y mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli effeithio ar unplygrwydd marchnad sengl y DU – megis safonau amaethyddol ac amgylcheddol ble mae yna gyfundrefnau gwahanol ar y naill ochr a'r llall i ffin Cymru/Lloegr.

CASGLIAD

Mae economi Cymru yn economi o gwmnïau bach, gyda mwyafrif llethol y busnesau sy'n gweithredu yma yn cyflogi llai na 25 o bobl. Mae gweithlu sector preifat Cymru hefyd wedi'i gyflogi mewn BBaChau at ei gilydd. Am y rhesymau hyn, mae gwneud llwyddiant o Brexit yn allweddol i llwyddiant Cymru yn y dyfodol.

O'n hymchwil byddai FSB Cymru'n hoffi gweld y nodweddion canlynol fel mater o flaenoriaeth:

Mynediad at Farchnadoedd

- Bargen drosiannol sy'n cynnig eglurder a sefydlogrwydd i fusnesau Cymru.
- Trefniadau masnach ar ôl Brexit sy'n diogelu mynediad cwmnïau Cymru at eu marchnadoedd allweddol.
- Mae FSB Cymru'n credu y dylai Llywodraeth y DU geisio lleihau rhwystrau tariffau a di-dariff gyda marchnad sengl yr UE yn dilyn ein hymadawiad o'r UE.
- Dylai Llywodraeth Cymru gynorthwyo cwmnïau lleiaf Cymru wrth archwilio marchnadoedd newydd y tu mewn i'r DU, fel cam cyntaf tuag at fasnachu'n rhyngwladol.
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu strategaeth masnach a buddsoddi a chreu corff o bosibl i gefnogi cyflawni hyn.
- Dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU ble mae angen, geisio diffinio a hybu brand Cymru yn well fel cyfrwng mwy effeithiol i greu cyfleoedd i fusnesau Cymru a buddsoddi.

Mynediad at Sgiliau a Llafu

- Dylai trefniadau ymfudo ar ôl Brexit ddiogelu gallu cwmnïau Cymru i lenwi bylchau sgiliau. Dylid cadw costau sy'n gysylltiedig â hurio mudwyr i'r lleiaf posibl.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gwasanaethau addysg yng Nghymru yn ymatebol i anghenion busnesau lleol. Bydd sgiliau a hyfforddiant wedi'u haddasu i anghenion y farchnad lafur leol yn angenrheidiol.

Cyllid

- Bargen gyllido sy'n rhoi mynediad i gwmnïau Cymru at gyfleusterau a phhecynnau tebyg i'r rhai a fyddai wedi bod ar gael petaem wedi aros yn yr Undeb Ewropeaidd.
- Dylai unrhyw gyfundrefn gyllido yn y dyfodol ddiogelu'r arfer gorau fel y mae wedi dod i'r fei yng Nghymru, a chael ei llunio gyda'r busnesau lleiaf mewn cof.

Rheoleiddio

- Dylai'r Cydgyngor Gweinidogion gael pwrpas o'r newydd a dylai fod yn fwy gweladwy a thryloyw fel fforwm i ddatrys meysydd lle mae gwahaniaeth rheoleiddiol domestig ble mae i hyn y potensial i niweidio marchnad fewnol y DU.
- Dull graddol ac ystyriol o weithredu diwygiadau rheoleiddiol ar ôl Brexit, gyda llwyfannu ac arwyddo clir i sicrhau rhwyddineb cydymffurfio.
- Dylai Llywodraeth Cymru fynd ag agenda "gwell rheoleiddio" i Gymru yn ei blaen.

FSB Wales
1 Cleeve House, Lambourne Crescent
Caerdydd, CF14 5GP
T/Ff: 02920 747406
M/S: 07917 628977
www.fsb.org.uk/wales
Twitter: @FSB_Wales

fsb⁰⁸
Experts in Business
Arbenigwyr mewn Busnes